

AcademiWales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

#GwasanaethauCyhoeddus

Adroddiad Blynyddol 2017-18



Cynnwys

Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol 2017-18. Mae wedi'i ysgrifennu fel llinell amser, sy'n tynnu sylw at y prif bethau a gyflawnwyd yn ystod pob cyfnod o dri mis.

Trosolwg gan Jo	3
Ebrill i Fehefin 2017	4
Gorffennaf i Fedi 2017	6
Hydref i Ragfyr 2017	8
Ionawr i Fawrth 2018	10

Gallwch gael mwy o wybodaeth amdanom ni, y gwaith a wnawn, gyda phwy rydym yn gweithio a'n gwerthoedd drwy fynd i'n gwefan:

gov.wales/academiwales

Trosolwg gan Jo



Ebrill i Fehefin 2017

Wrth i'r flwyddyn fusnes newydd ddechrau, roedd tîm Academi Wales wrthi'n brysur yn dechrau'r broses o baratoi ar gyfer y 12 mis nesaf. Cyhoeddwyd amserlen brysur o raglenni agored a dosbarthiadau meistr a dechreuodd y dasg anochel o baratoi ar gyfer yr Ysgol Haf. Cafwyd dechreuad llwyddiannus i'n hymgyrch arweinyddiaeth '*Arwain drwy Ddewis – Dod yn Arweinydd Bwriadol Ddisgybledig*' a gwelwyd hynny yn sgil llwyddiant yr Ysgol Haf a'r dysgu a rannwyd gan arweinwyr ar draws y sector o bob rhan o Gymru.



Gorffennaf i Fedi 2017

Yn draddodiadol, mae misoedd yr haf yn gyfnod tawel, ond ddim eleni! Cyflwynodd tîm Academi Wales ystod eang o brofiadau dysgu gwahanol, o siarad mewn cynadleddau mawr i greu sesiynau pwrpasol ar gyfer uwch-dimau. Rydym wastad yn ymdrechu i rannu meddylfryd diweddaraf ein harweinwyr ac rydym yn creu ein cyfres o ddigwyddiadau Hau Hadau er mwyn helpu gweision cyhoeddus i gymryd y syniadau arweinyddiaeth diweddaraf i'r rheng flaen wrth

ddarparu gwasanaethau. Rydym yn cynhyrchu 4 o ddigwyddiadau Hau Hadau bob blwyddyn a doedd eleni ddim yn eithriad.

Hydref i Ragfyr 2017

Rydyn ni wrth ein bodd gyda'r teimlad hydrefol hwnnw o fod 'nôl yn yr ysgol', ac wrth i'r dyddiau fyrhau, fe wnaethom sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y gorau o bob un o'n digwyddiadau. Cynyddwyd ein cefnogaeth i Fyrddau ac Aelodau Byrddau eleni a dechreuwyd cyfres newydd o seminarau arbenigol a gweithdai sgiliau. Mae Cynhadledd Gwella Parhaus Cymru Gyfan yn cael ei chynnal yn ystod y chwarter hwn a dyma ein her flynyddol i'r rhai sy'n gweithio mewn arloesedd, newid a chymryd risg ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.



Ionawr i Fawrth 2018

Gyda'r flwyddyn newydd wedi cyrraedd, a llawer o waith ar y gweill ar draws pob un o dimau Academi Wales, trodd fy sylw at yr Ysgol Aeaf a pharhad ein hymgyrch, '*Arwain drwy Ddewis*' ond y tro yma gyda'r pwyslais ar '*Ddewrder – Arweinyddiaeth yn y Fantol*'. Sut rydym ni'n helpu arweinwyr ar bob lefel i gymryd y camau beiddgar a dewr sydd eu hangen i newid gwasanaethau go iawn, i siarad y gwir, i rymuso ac i arwain y tu hwnt i'w swyddi. Her i ni gyd wrth edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2017 a gosod agenda uchelgeisiol ar gyfer y flwyddyn i ddod.



Ebrill i Fehefin 2017

Cynllunio a datblygu

Roedd y gwanwyn yn gyfnod cyffrous i'r tîm wrth i ni lansio dwy raglen newydd sbon yn yr Ysgol Haf.

'Diddorol a rhyngweithiol'

'Golwg ddiddorol ar sut mae ymddiriedaeth yn sail i berfformiad a chanlyniadau timau.'

Cynadledwr Ymddiriedaeth, 2017

Mae **'Ymddiriedaeth: Sail timau llwyddiannus'** yn bwrw golwg fanwl ar ymddiriedaeth. Beth mae'n ei olygu i fod yn ddibynadwy, sut mae'n sail i lwyddiant ein sefydliadau a sut gallwn ni, fel gweision cyhoeddus, ddylanwadu ar y broses o greu diwylliant cryfach o ymddiriedaeth o fewn ein gweithleoedd ac yn ein perthynas â'r rhai a wasanaethwn. Yn ôl yr awdur Steven R M Covey, ymddiriedaeth, yw 'cymhwysedd arweinyddiaeth allweddol yr economi fyd-eang newydd.

'Gweithdy gwyh. Golwg arbennig ar nodweddion narsisaidd.'

Cynadledwr Rhyfyg, 2017

Mae **'Rhyfyg: Beth, fi? Aros ar ochr iawn eich hun'** yn archwilio'r maes diddorol sydd hefyd o bosib yn bwnc llosg, o'r pŵer a'r effaith feddwol y gall ei gael ar y rheini sydd mewn safle o bŵer ac awdurdod. Gellir diffinio 'Rhyfyg' fel 'gormod o falchder neu hunanhyder' a gall, o beidio â chadw golwg arno, fod yn niweidiol iawn i les sefydliadau ac unigolion, gan arwain o bryd i'w gilydd at ganlyniadau trychinebus. Gofynnwyd i gynadledwyr ystyried sut mae 'rhyfyg' yn effeithio ar bobl eraill, beth i'w wneud amdano pan fydd yn digwydd, a sut i adnabod arwyddion ohono yn chi'ch hun!

Rydym wedi helpu dros 9850 o bobl i dyfu drwy ddysgu!!

'Roedd Ysgol Haf 2017 yn fywiog, yn heriol, ac yn ysbrydoledig, ac fe'm helpodd i ddatblygu rhwydweithiau newydd, ffyrdd newydd o feddwl ac i wir gofleidio'r syniad, gyda'n gilydd, nad oes unrhyw beth na all y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ei gyflawni.'

Cynadledwr yr Ysgol Haf, 2017

Ysgol Haf Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2017

Y thema ar gyfer 2017 oedd 'Arwain drwy Ddewis – dod yn arweinydd bwriadol ddisgybledig'. Roedd y prif gyflwyniadau yn amrywio o 'Ganfyddiad a Gwneud Phenderfyniadau ymhlith Arweinwyr', 'Gwyddoniaeth Chwerthin a Chyfathrebu', 'Persbectif Ymddygiad ar Wneud Penderfyniadau' a 'Polisi a Chyd-Greu ar gyfer Dyfodol Cydweithredol'.

Fe wnaethom hefyd greu'r Hyb Cynadledwyr cyntaf yn yr Ysgol Haf – llwyfan digidol gyda'r bwriad o rannu gwybodaeth yn haws ac annog cydweithio ymhlith cynadledwyr.

Penawdau

- 189 o gynadledwyr yn cynrychioli 69 o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru
- 10 o brif siaradwyr sy'n adnabyddus yn rhyngwladol
- 15 o weithdai dysgu drwy brofiad a 7 o goetswyr gweithredol
- Opsiwn i gael achrediad tuag at gymhwyster ôl-radd.



Gwobrau Cymunedol Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan

Ym mis Mai, mynychodd 100 o ymarferwyr gwelliant parhaus y seremoni wobrwyo ym Mharc Margam. Cafodd y cynadleddwyr y pleser o glywed araith ysgogol ac ysbrydoledig Richard Parks, cyn chwaraewr rygbi rhyngwladol Cymru, cyn iddo droi'n 'athletwr amgylcheddol eithafol'.

Ymhlith yr enillwyr oedd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Heddlu Dyfed Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r Swyddfa Eiddo Deallusol. Enillodd Huw Jakeway, Prif Swyddog Tân Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru, y wobwr am Gyfraniad Eithriadol i Welliant Parhaus mewn Gwasanaethau Cyhoeddus.



Rhaglen Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan i Raddedigion

Cafwyd cytundeb gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i arwain y Rhaglen Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan i Raddedigion. Dyma'r cyntaf o'i bath, gan gynnig rhaglen unigryw i raddedigion yng Nghymru. Mynegodd 57 o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus ddiddordeb yn y rhaglen a'u cefnogaeth i'r weledigaeth o 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru'.

Digwyddiad cydweithio

Mewn partneriaeth ag Ysgol Fusnes Caerdydd, cynhaliwyd dosbarth meistr gydag Athro Prifysgol Princeton, Eldar Shafir, ffigwr blaenllaw mewn ymchwil i wyddoniaeth wybyddol ac economeg ymddygiadol.

Mae cydweithio â sefydliadau eraill yn hanfodol i Academi Wales. Roedd yn bleser cydweithio gyda Phrifysgol Caerdydd, gan gefnogi eu strategaeth i fod yn Ysgol Fusnes Gwerth Cyhoeddus cyntaf y byd. Roedd cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn gallu elwa o'r ymchwil a'r wybodaeth.



Profiad fel Uwch Arweinwyr

Mae'r profiad wedi'i anelu at uwch arweinwyr sy'n ceisio arwain drwy gyfnod o ansicrwydd, twf a newid yn eu sefydliadau. Yn dilyn llwyddiant carfan y cynllun peilot, a gyflwynwyd o fewn y sector iechyd yn 2017, ehangwyd y rhaglen i arweinwyr o bob gwasanaeth cyhoeddus.

Mae'r profiad yn cyfuno diagnosteg gydag adborth a thrafodaeth ynglŷn â datblygiad personol, gan gynnig cefnogaeth a her mewn sesiwn hyfforddi gynhwysfawr i ddyfnhau myfyrdod personol a throsglwyddo'r hyn a ddysgwyd.

'Byddaf yn parhau i ddatblygu fy hunan-gred fy hun a byddaf yn parhau i gyfeirio'n ôl at y dystiolaeth pan fyddaf yn amau fy hun.'

Cynadleddwr Profiad fel Uwch Arweinydd, 2017

Gorffennaf i Fedi 17


Ysgol Dwr Y Felin yn cynnal Diwrnod Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Cefnogwyd diwrnod datblygiad proffesiynol parhaus yr ysgol gan ganolbwyntio ar eu lles fel arweinwyr dysgu.

Roedd y sesiynau'n cynnwys:

- Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol
- Deall Gwytnwch Meddyliol
- Gwytnwch ac Ymwybyddiaeth Ofalgar.

Cafodd pob athro gyfle i ddeall eu hunain yn well ac ymarfer rhai technegau newydd. Yn ogystal, rhannwyd deunydd darllen a deunyddiau eraill y gellid eu defnyddio gan y grŵp yn y dyfodol.



'Dyw'r staff heb stopio siarad amdano. Mewn gwirionedd mae grŵp o staff wedi mynegi diddordeb mewn mynychu cwrs Ymwybyddiaeth Ofalgar wythnosol rydym yn gobeithio ei gynnig yn ein hysgol ni.'

Sally Llewellyn,
Dirprwy Bennaeth, Dwr Y Felin

Digwyddiadau 'Byrddau Iach' gyda'r WCIA

Archwiliodd y sesiwn ryngweithiol hon y ffordd y mae Aelodau Byrddau yn cyfrannu at eu Bwrdd a sut maen nhw'n effeithio ar y broses o ddatblygu'r diwylliant cywir o fewn ystafell y bwrdd er mwyn darparu perfformiad uchel.

'Straeon pwerus iawn – fe ehangodd fy ffordd o feddwl am wasanaethau cynhwysol i bawb.'

Cynadleddwr y Gynhadledd Arweinyddiaeth mewn Iechyd a Gofal

Cynhadledd Arweinyddiaeth mewn Iechyd a Gofal

Roedd y gynhadledd yn cyd-fynd â'n hymgyrch 'Arwain drwy Ddewis' ac yn annog cynadleddwyr i feddwl a oeddent mewn gwirionedd yn arwain drwy ddewis neu'n ymateb yn unig.

Rhoddodd y siaradwyr ysgogol, Mandy Hickson a Linda Aspey ddigon i gnoi cil arno yn ogystal ag awgrymiadau ymarferol ar sut i wella ansawdd meddwl, dileu tybiaethau sy'n cyfyngu, cynnal cydbwysedd iach rhwng optimistiaeth a realiti a chreu amgylchedd ffisegol a meddyliol sy'n gwerthfawrogi unigolion.

Roeddem wrth ein bodd hefyd fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Vaughan Gething wedi ymuno â ni yn ogystal â Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru fu'n annerch y gynulleidfa o 150 o gynadleddwyr. Cafwyd ymateb da iawn i'r gynhadledd gyda nifer o bobl yn sôn am y 'straeon lles' ysbrydoledig gan y rheini a oedd wedi derbyn neu brofi gwasanaethau o'r fath.



Yn ystod 2017-18 fe wnaethom drefnu 400 o ddigwyddiadau, gweithdai, cyrsiau a chynadleddau.



Gwobrau Arwain Cymru

Fe wnaethom gefnogi'r wobwr 'Arweinyddiaeth yn y Sector Cyhoeddus' fel rhan o Wobrau Arwain Cymru, gan gydnabod a dathlu llwyddiannau personol arweinwyr rhagorol.

Roedd Zoe Sweet a Ross Storr o Academi Wales yn aelodau o'r panel beirniadu ac yn cyfweld â'r rhai oedd ar y rhestr fer. Roeddent yn falch o gyhoeddi mai'r enillydd oedd Dr Mhairi McVicar (Uwch Ddarlithydd Prifysgol Caerdydd a Chyfarwyddwr Ymgysylltu Ysgol Bensaerniaeth Cymru).

Roedd Mhairi yn sefyll allan oherwydd ei bod wedi arwain gyda gwyleidd-dra a chydweithrediad i helpu i drawsnewid ei chymunedau lleol er gwell ac i adeiladu'r berthynas sydd gan Brifysgol Caerdydd â'r brifddinas.

Rhaglen Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan i Raddedigion

Roedd llawer o weithgarwch ymgysylltu a datblygu yn digwydd ar gyfer y rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau ar gyfer sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo'r rhaglen, ymweliadau un-i-un gydag uwch arweinwyr a ffeiriau recriwtio graddedigion.

Lansiwyd ein tudalen Facebook hefyd a dechreuwyd hyrwyddo ar ein sianeli digidol.



Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol

Ym mis Ebrill, lansiwyd y broses recriwtio ar gyfer carfan 2017/18 o'r Rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (ILO).

Dychwelodd tri o'r criw hefyd o leoliadau arweinyddiaeth cyffrous. Rhannodd un ei brofiad o weithio o fewn Tîm Rheoli Iechyd yn ardal Quthing yn Lesotho:

'Nid yw gweithio mewn swydd ILO yn fater o fod yn Lesotho i roi cyfarwyddiadau'r byd datblygedig ynglŷn â beth sy'n rhaid ei wneud. Yn hytrach, mae'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr yn Lesotho ... dyw rhywun byth yn rhy hen i ddysgu ac mae llawer y gallaf ddysgu wrth fy nghydweithwyr yn Lesotho.'

Prif ffigurau

Cyllideb	£	£1.2 miliwn
Cyfanswm y cynadleddwyr		9890
Cost fesul cynadleddwr		£127.5

Digwyddiad 'Dysgu a Rhannu'

Cynhaliodd Cyngor Sir Powys y digwyddiad hwn ar gyfer Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan. Roedd yn canolbwyntio ar eu prif brosiectau effeithlonrwydd arbedion cost.

Ers hynny, mae'r cyflwyniad hwn wedi bod yn sbardun i sefydlu ffyrdd o rannu beth mae pob Awdurdod Lleol wedi'i gyflawni, gyda'r nod cyffredinol o rannu ffyrdd arloesol o weithio.

Drwy ein hymdrechion codi arian, roedden ni wedi rhoi £3600 i Alzheimer's Society Cymru!

Hydref i Ragfyr 2017

Byrddau Iechyd y GIG

Lansio Rhaglen Gynefino Aelodau Annibynnol y Bwrdd

Rhoddodd Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru, yr anerchiadau agoriadol i dros 50 o bobl oedd yn bresennol ar y rhaglen hon, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chyddfederasiwn GIG Cymru, Llywodraeth Cymru a chydweithwyr GIG Cymru.

Canllawiau Llywodraethu

Lansiwyd 2 ganllaw newydd, a gynlluniwyd i gefnogi'r holl aelodau bwrdd presennol a darpar aelodau i integreiddio pob agwedd ar lywodraethu ac ymgorffori'r gwerthoedd a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ar bob lefel o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.



Tai Cymunedol Cymru – Cynhadledd Flynyddol 2017

Roeddem yn falch o gefnogi'r digwyddiad pwysig hwn a oedd yn cynnwys siaradwyr uchel eu proffil fel Ben Page (Prif Swyddog Gweithredol), Ipsos MORI a'r Athro Calvin Jones, Ysgol Fusnes Caerdydd. Roedd ein stondin yn gyfle gwych i rwydweithio gyda'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn cymdeithasau tai ledled Cymru.



Gwyliwyd 250,000 munud o fideos ar ein sianel YouTube

'Mae'n iawn cymryd risg, ac mae'n iawn methu cyhyd â'ch bod yn dysgu o'r profiad.'

Cynadleddwr Cynhadledd AWCIC, Cymdeithas Tai Bron Afon, 2017

'Gwelliant a Risg – Dyw methiant ddim yn opsiwn'

Cynhaliwyd ein 6ed Cynhadledd Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC) ym mis Tachwedd. Dyma'r gynhadledd a ddenodd y nifer fwyaf o bobl hyd yma gyda 200 o gynrychiolwyr yn mynychu'r digwyddiad yn Stadiwm Liberty, Abertawe.

Canolbwyntiodd y digwyddiad ar gysylltu'r angen am gymryd risg, i wella cyfleoedd ac yn y pen draw, gwasanaethau cyhoeddus gwell.

Cafodd y gynhadledd ei chadeirio gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Jim Lawless, un o siaradwyr ysgogol blaenllaw'r byd, oedd prif siaradwr y digwyddiad. Roedd y siaradwyr eraill yn cynnwys Bill Lucas, Prifysgol Caer-wynt a Leighton Andrews, Ysgol Fusnes Caerdydd.



4,500 o ddilynwyr – cynnydd o 30% ers 2016-17



'Popeth amdanoch chi – Bod y Gorau y Gallwch Chi'

Roeddem wrth ein bodd yn gallu cefnogi Cyngor Abertawe yn eu digwyddiad i staff Dinas a Sir Abertawe ym mis Tachwedd.

Thema'r diwrnod oedd 'Bod y Gorau Gallwch Chi' a mynychodd dros 200 o gynrychiolwyr o bob rhan o Awdurdod Lleol Abertawe. Ymhlith y gweithdai roedd: Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol, Ymddiriedaeth: Sefydlu Timau Llwyddiannus ac Awr yr Athrylith.

Yn ogystal, trefnwyd stondin, lle'r oeddem yn gallu trafod pynciau oedd yn ymwneud â dysgu a datblygu gyda'r rhai oedd yn cymryd rhan yn y digwyddiad, gan gynnwys Prif Weithredwr Cyngor Abertawe, Phil Roberts.

'Roedd y gweithdai a gynhaliwyd gan y tîm yn fuddiol iawn i amrywiaeth o'n gweithwyr ar draws ystod o wasanaethau. Disgrifiodd gweithwyr Cyngor Abertawe y sesiynau fel ysgogol, atyniadol a grymus; dysgu sgiliau newydd sy'n berthnasol nid yn unig i'w bywydau gwaith ond ar lefel bersonol hefyd.'

Cyngor Abertawe, 2017

1,700 o aelodau newydd wedi creu cyfrifon ar ein gwefan

Cynadleddau Coetsio


Herio'r Cyfyngiadau

Mynychodd 60 o goetswyr ein Cynhadledd Coetsio Gwasanaethau Cyhoeddus gyntaf yng Ngogledd Cymru, 'Herio'r Cyfyngiadau' ym mis Tachwedd.

Roedd y gynhadledd yn gyfle gwych i rwydweithio ac i rannu arferion da o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus Cymru.

Herio'r Naratif

Cynhaliwyd y gynhadledd ar y cyd â Phrifysgol De Cymru. Mynychodd aelodau Rhwydwaith Coetsio Cymru a'r rheiny sy'n cwblhau ein rhaglen 'Datblygu coetswyr lefel uwch' (cymhwyster ILM lefel 7), gyda 40 yn manteisio ar ein bwrsariaeth.



Lansio system ddigwyddiadau

Cyflwynwyd system archebu ar-lein newydd ar gyfer ein digwyddiadau sy'n ei gwneud yn gyflymach ac yn symlach i gynadleddwyr chwilio amdanynt ac archebu lle ar ein cyrsiau.

Roedd y system hefyd wedi ein helpu i baratoi ar gyfer y gyfraith diogelu data GDPR newydd, gan ganiatáu i ni reoli ein digwyddiadau yn haws a rhoi rhagor o wybodaeth i'n cynadleddwyr.

Dros 400,000 wedi gweld ein tudalennau ar y we

Ionawr i Fawrth 2018

Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol

Yn ystod mis Mawrth, aeth clinigwyr oedd yn rhan o chweched carfan y Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol ar ymweliad dau ddiwrnod â chymuned ddysgu breswyl yng Nghwm Elan - 'Arwain Timau a Phobl'.

Bu'r grŵp yn archwilio arddulliau arweinyddiaeth, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu tîm ac, yn bwysicaf oll, cael amser i feddwl am yr hyn a ddysgwyd.

Roedd y rheini a gymerodd ran wedi datblygu mwy o hunan-ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effaith personol ar sefyllfaoedd gyda strategaethau i wella effeithiolrwydd.



Clystyrau Gofal Sylfaenol

Dechreuodd ail garfan y rhaglen newydd hon ym mis Mawrth 2018. Bu adborth y garfan gyntaf ynglŷn â'r fframwaith datblygu hwn, a oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu, dylanwadu a chydweithio, yn llwyddiannus wrth fodloni'r sialensiau a brofir gan y 5 Arweinydd Clwstwr a oedd yn bresennol.

Mae'r Arweinwyr Clwstwr Gofal Sylfaenol sy'n hwyluso cydweithio rhanbarthol wedi cael mwy o lwyddiant drwy ddefnyddio dulliau a thechnegau i ymgysylltu ag aelodau'r clwstwr.

Rhaglen Meistr wedi'i hariannu'n llawn:
**MSc mewn Arweinyddiaeth a
Llywodraethu o Brifysgol De Cymru**

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio yn y rhanbarth o'u dewis yng Nghymru –
Gogledd, Canolbarth neu'r De

Ceisiadau ar agor: **15 Ionawr 2018**

Dyddiad cau: **26 Ionawr 2018**

Cyfle i weithio mewn tri sefydliad

I wneud cais, rhaid i chi feddu ar
radd 2:1 mewn unrhyw bwnc gradd
(neu gymhwyster uwch) erbyn 20 Gorffennaf 2018



Rhaglen Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan i Raddedigion

Ym mis Ionawr, agorwyd ceisiadau am y rhaglen gyntaf o'i bath ar gyfer graddedigion. Roeddem wrth ein bodd gyda'r ymateb a derbyniwyd dros 1,000 o geisiadau.

Fe wnaethom hefyd ddewis y sefydliadau fyddai'n cymryd rhan yn y rhaglen beilot. Roedd 16 o lefydd ar gael i raddedigion a chytunodd Ysgrifennydd y Cabinet leoliad y swyddi ar draws Cymru:

- 7 De Ddwyrain Cymru
- 5 Canolbarth a Gornllewin Cymru
- 4 Gogledd Cymru

Cymerodd ymgeiswyr cymwys y prawf cryfderau sefyllfaol dwyieithog a chafodd pob un adborth ar eu perfformiad. Cafodd ein haseswyr gwasanaethau cyhoeddus eu hyfforddi hefyd mewn recriwtio sy'n seiliedig ar gryfderau ar draws pob rhanbarth o Gymru.

Rydym hefyd wedi dyfarnu contractau i Brifysgol De Cymru i gyflwyno'r radd meistr, Arad i gwblhau'r gwerthusiad ffurfiol a Call of the Wild ar gyfer yr elfen adeiladu tîm yn ystod sesiwn gynefino'r graddedigion.

'Profiad dysgu gwych gyda phobl grêt yn gwasgu'r botwm oedi ar eu gwaith bob dydd.'

Cynadleddwr yr Ysgol Aeaf, 2018

Ysgol Aeaf Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2018

Cynhaliwyd y seithfed Ysgol Aeaf flynyddol ar draws 4 diwrnod yn Nant Gwrtheyrn yng Ngogledd Cymru.

Daethpwyd â 46 o arweinwyr y lefel uchaf o 29 o sefydliadau at ei gilydd i wrando ar siaradwyr rhyngwladol blaenllaw yn rhannu eu safbwyntiau diweddaraf ynglŷn â theori ac arferion arweinyddiaeth.

Parhaodd ein ffocws ar 'Arwain drwy Ddewis', a'i ddatblygu i edrych ar yr hyn mae'n ei olygu i fod yn ddewr mewn arweinyddiaeth a pha mor bwysig fydd hyn wrth i arweinwyr barhau i wynebu her ddigynsail i ddiwallu anghenion dinasyddion ledled Cymru.



Penodi Bwrdd Ymgynghorol Newydd

Dangoswyd ein gwerthfawrogiad wrth i ni ffarfwelio â'r arweinwyr hynny fu'n rhan o'n Bwrdd Ymgynghorol rhwng 2012 a 2017, dan gadeiryddiaeth Bob Hudson.

Croesawyd aelodau newydd y bwrdd wrth iddynt gwrdd am y tro cyntaf ym mis Chwefror. Mae'r bwrdd yn cynnwys arweinwyr o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus a chaiff y Bwrdd ei gadeirio gan yr Athro Catherine Farrell.

Dosbarthiadau Meistr

4 sgwrs y mae'n rhaid i bob Reolwr eu cael

Cynlluniwyd y dosbarth meistr ymarferol hwn i helpu i wella effaith ein rheolwyr llinell. Cafodd y cynrychiolwyr o 22 sefydliad gyfle i ddysgu oddi wrth y siaradwr a hefyd oddi wrth ei gilydd.

Dosbarth Meistr – Clywch Clywch – Pŵer Gwrando

Fe wnaeth y gweithdy rhyngweithiol hwn helpu arweinwyr i nodi a ydynt yn gwrando mewn gwirionedd ac yn clywed yr hyn sy'n cael ei ddweud ac i ddeall gwerth canolbwyntio clywedol da yn y gweithle a thu hwnt.



Dosbarth Meistr – Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol

Cafodd y rheini oedd yn cymryd rhan gyfle i adlewyrchu ac i drafod y newidiadau diwylliannol fydd eu hangen yn eu sefydliadau eu hunain i lunio'r ymddygiadau a'r gwerthoedd newydd sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Archwiliwyd hefyd sut i fynd i'r afael â gwrthwynebiad i newid wrth i'r ymddygiadau gael eu sefydlu.

Sesiynau Datblygu'r Bwrdd

Cynlluniwyd a chyflwynwyd 2 sesiwn ddatblygu i uwch arweinwyr drwy ddefnyddio offeryn diagnostig Cam 2 MBTI. Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf gyda thîm Gweithredol GIG Cymru a'r ail gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru.